# Cyngor Cymuned Tudweiliog
Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 10ed Ebrill 2023

Presennol: Gareth Jones, Alyn Williams, Terry Huws, Dafydd Williams, Catrin Williams, Alan Hughes, John Davies

Ymddiheuriadau: Sioned Pearson, Sian Parri, Henry Hughes, Chris Brady

1. Cadeiriwyd gan Gareth Jones ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Bu i'r Clerc ymweld a'r siop, deallodd fod angen hysbysfwrdd sylweddol o ran maint, wedi ei wneud o bren ac wedi ei osod ar wal allan y Post. Bydd y Clerc yn symund ymlaen hefo hyn dros yr wythnosau nesaf.
   b. **Tir Garnfadryn-** Anfonodd y Clerc lythyr at y tenant oedd yn arfer rhentu'r darn tir ac o ganlyniad i'r llythyr daeth galwad ffon i'r clerc gan y tenant. Roedd yn amlwg o'r alwad fod teimladau cryfion iawn ynglyn a'r tir ac roedd gwrthwynebiad pendant ganddi at y syniad fod y Cyngor Cymuned yn bwriadu cofnodi'r tir hefo'r Land Regestry. Oherwydd nad oes dogfenau cyfreithiol yn cadarnhau pwy yw gwir berchennog y tir, penderfynwyd na fydd y Cyngor yn cofrestru'r tir ac y bydd y Clerc fynd yn ol at y tenant i'w gwybyddu o hyn. Gan fod 10 mlynedd wedi pasio ers derbyn rhent ac o edrych yn ol, bu i'r taliad diwethaf ei wneud am gyfnod o ddeg mlynedd blaenorol, penderfynnwyd gofyn am rent dyledus o £50.00 (union yr un a ofynwyd ac a dalwyd ar y 3ydd Goeffennaf 2013).

c. **Cyfethol – 1 sedd wag –** Cafwyd ar ddeall fod Deio Richard Williams o Dinas yn awyddus i fod yn aelod o'r Cyngor, roedd pawb yn cytuno i'w gyfethol.

Ch. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Cysylltodd y Clerc a Carter Jonas gan ddiolch iddynt am ystyried cyfranu tir ar gyfer y fynwent. Gofynnodd y Clerc am gadarnhad for tenant y cae yn ymwybodol o'r bwriad gan y bydd angen arbennigwyr fynd a'r y cae i'w archwylio a'i asesu.

Bydd Hugh O'Donnell (Carter Jonas yn cysylltu a'r Clerc pan fydd wedi cael gair hefo'r ffarmwr)

dd. **Diffib Tudweiliog –** Derbyniodd y Clerc gabinet i ddal y diffib, gofynwyd i Dafydd Williams ei osod.

d. **Archwyliad Allanol Audit Wales –** Cafodd y Cynghorwyr gyfle i edrych dros adroddiad yr Archwylwyr, bydd y Clerc yn gweithredu ar y pwyntiau sy'n codi ohono.

e. **Arosfan Bwi i Dinas –** Adroddodd Alan Hughes fod Swyddog o'r adran Priffyrdd wedi ymweld a'r safle, yn anffodus doedd y man ple awgrymwyd i'r arosfan fod ddim yn addas o gwbwl. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r gymdeithas Dinasyddion gan awgrymu eu bod yn trafod y mater y neu cyfarfod nesaf.

f. **Polisi Iaith – Cyfeillion Llyn –** Yn absenoldeb Sian Parri adroddodd y Clerc yn ol o'r cyfarfod Cyfeillion Llyn. Bwriedi'r ail edrych ar y polisi iaith gan ei gryfhau. Dylai draft o'r polisi fod yn barod ar gyfer ein cyfarfod mis nesaf.

4. Gohebiaeth:

**a. Holiadur Rhandiroedd –** Derbynwyd holiadur gan Menter Mon ynglyn rhandiroedd sydd ym mherchnogaeth Cynghorau Cymuned – bydd y Clerc yn ei lenwi.

**b. Anfoneb LWH am £120.0 –** Derbyniodd y Clerc hawl i'w thalu.

**c. Cyflog y Clerc –** Derbyniodd y Clerc hawl i'w dalu.

**ch. Cynnig I Newid rheolau Tai Teg –** Derbyniodd y Clerc ebost gan Jina Gwyrfai Cynghorydd Ward yr Eifl yn gofyn am newid i Reolau Tai Teg ar cyfyngiadau adeiladu – penderfynwyd Cefnogi.

**5. Unrhyw fater arall-**

a/ Eglurodd y Clerc fod nifer y Cynghorwyr sydd a'r hawl i arwyddo

sieciau wedi disgyn i dri – gofynnodd am yr hawl i newid y ‘mandate’ bydd yn mynd i fewn i’r banc i ofyn am ffurfleni – roedd pawb yn fodlon i hyn ddigwydd.

b/ Daeth cwyn fod cwn yn rhydd ar lan mor Towyn er ei fod yn un o’r traethau di gwn – bydd y Clerc yn ysgrifennu ar yr adran Morwrol i gyflwyno’r gwyn. .

c/ Cyflwr lon Porthcolmon – mae cwynion parhaus ynglyn a cyflwr y lon, ond o dderbyn cwyn newydd daeth yn amlwg fod dwr budur yn rhedeg i’r lon o’r fferm cyfagos, ac oni bydd hyn yn cael ei sortio ni fydd cyflwr y ffordd yn yn gwella.  Bydd y Clerc yn cysylltu a’r adran Priffyrdd am arweiniad.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 8ed Mai 2023 am 7.30yh